Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin y Parc
# Capel Salem
# Stryd y Farchnad
# Tregana
# Caerdydd
# CF5 1QE

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 3/12/2012**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin y Parc a sefydlwyd yn 1984 ac yn cwrdd yn festri Capel Salem yng Nhreganna. Dyma ardal o Gaerdydd lle mae nifer fawr o deuloedd o siaradwyr Cymraeg yn byw. Caiff y lleoliad eu goruchwylio gan bwyllgor o rieni. Mae`r lleoliad ar agor am 10 sesiwn (bore a phrynhawn) yr wythnos ac wedi`i gofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i dderbyn uchafswm o 18 o blant mewn un sesiwn. Adeg yr arolygiad roedd 48 o blant ar y gofrestr; 19 o blant yn y sesiwn bore (9 y.b. – 11.45 y.b.) a`r gweddill yn y sesiwn prynhawn (12.40 – 15.10 y.p.)

Mae`r plant yn mynychu o 2½ oed ac yn gadael am y cyfnod nesaf yn eu haddysg yn y tymor sy`n dilyn eu penblwydd yn 4 oed. Ar hyn o bryd, caiff 17 o blant eu hariannu.

Mae`r lleoliad yn croesawu plant pa beth bynnag yw eu cefndir a daw`r mwyafrif o`r plant o`r ardal leol. Daw lleiafrif ohonynt o gartrefi Cymraeg eu hiaith, tua hanner o gartrefi lle mae un rhiant yn medru`r Gymraeg a`r gweddill o gartrefi lle siaredir Saesneg. Daw`r plant o amrywiaeth o gefndiroedd economiadd-gymdeithasol ac mae`r lleoliad yn adrodd nad oes neb o gefndir economiadd-gymdeithasol difreintiedig. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw blant o gefndiroedd lleiafrifol ethnig.

Mae`r Cylch yn darparu ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol er nad oes unrhyw un o`r garfan bresennol wedi`i nodi ag anghenion o`r fath.

Mae`r ystafelloedd yn cynnwys cyntedd sy`n arwain at ystafell fawr lle mae`r rhan fwyaf o`r gweithgareddau yn digwydd. Mae`r cyntedd yn ddiogel gan fod neb yn medru dod i mewn na gadael yn ddirybudd, mae`n helaeth ac yn darparu lle i arddangos gwybodaeth ddefnyddiol ar gyfer rhieni. Mae cegin addas a thoiledau i`r plant yn agor o`r cyntedd.

Mae`r ystafell fawr wedi`i gwahaniaethu`n briodol i ardaloedd o weithgareddau ac mae dwy ystafell llai sy`n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau eraill fel amser stori a byrbrydau. Tu allan, mae ardal fach ag adnoddau da wedi`i sefydlu er cof am blentyn buodd farw tua ddwy flynedd yn ôl. Mae`r ystafelloedd yn cael eu defnyddio gan y gymuned pan nad yw`r lleoliad yn eu defnyddio sy`n golygu bod rhaid gosod adnoddau a`u clirio yn ddyddiol.

Mae`r lleoliad ar bwys ffordd brysur. Mae digon o gyfleusterau parcio ar gyfer y staff, tra bod y rhieni sy`n dod â`u plant i`r lleoliad yn gorfod parcio ar y ffordd.

Mae gan y staff gymwysterau a phrofiad da. Mae`r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 6 mlynedd ac yn cael ei chynorthwyo gan ddau gynorthwy-ydd sy`n siaradwyr Cymraeg rhugl a phedwerydd oedolyn sy`n dysgu Cymraeg. Mae pob un ohonynt wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant proffesiynol perthnasol.

Mae`r plant sy`n symud i`r cam nesaf yn eu haddysg yn trosglwyddo i`r ysgolion cyfrwng Cymraeg yn yr ardal.  Mae`r lleoliad yn aelod o Fudiad Ysgolion Meithrin ac wedi derbyn statws “Cylch Rhagorol” yn 2012.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan AGGCC yn Rhagfyr 2011.  Nid oedd unrhyw argymhellion.  Buodd arolygiad Estyn yn 2006 ac mae`r lleoliad wedi mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Nodweddion da

- Ethos y lleoliad sy`n sicrhau iechyd a lles y plant.
- Y ddarpariaeth ar gyfer goruchwylio gofal, cymorth ac arweiniad y plant.
- Cyfraniadau`r staff sy`n cyd-weithio fel tim.
- Cefnogaeth rhieni a`u hymddiriedaeth yn y staff.
- Safonau cyflawniad a chynnydd y plant yn enwedig yn yr iaith Gymraeg.
- Gweithgareddau diddorol sy`n cael eu darparu ar gyfer y plant.

Nodweddion digonol

- Defnydd o`r asesu i nodi`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant.
- Cynllunio ar gyfer bodloni anghenion plant o wahanol alluoedd.

**Rhagolygon gwella**

Nodweddion da

- Yr ysbryd tim sy`n amlwg o fewn y lleoliad sy`n canolbwyntio ar roi`r ddarpariaeth orau posibl i`r plant.
- Hanes da o wella`r ddarpariaeth.
- Gwneud y defnydd gorau o`r cyfleusterau sydd ar gael.
- Bod yn agored i syniadau newydd.
- Cefnogaeth gan Fudiad Ysgolion Meithrin a`r Awdurdod Lleol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r lleoliad:

(i) ddatblygu ei weithdrefnau asesu er mwyn nodi medrau plant unigol ac i dynnu sylw at y camau nesaf yn eu dysgu.
(ii) defnyddio canlyniadau`r asesu wrth gynllunio fel bod tasgau yn cyfateb yn dda â gallu`r plant a`u cyflawniad blaenorol.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae`r holl blant yn cyflawni safonau da ac yn gwneud cynnydd realistig ar draws pob maes dysgu. Mae`r plant yn mwynhau eu gwaith ac mae`r rhan fwyaf yn brysur wrth fynd i`r afael â`u tasgau. Mae`r cwricwlwm yn eu darparu ag amrywiaeth dda o gyfleoedd i wneud penderfyniadau am yr hyn maen nhw eisiau ei wneud. Mae eu hyder datblygol yn eu galluogi i weithio`n annibynnol am gyfnodau estynedig o amser.

Mae gan bron pob un o`r plant fedrau cyfathrebu da ac yn medru mynegi eu teimladau`n dda gan ddefnyddio geirfa eang sy`n datblygu. Ar y cyfan, mae`r plant yn defnyddio iaith y cartref, ond lle mae hyn yn golygu eu bod yn defnyddio`r Saesneg, mae`r plant yn dangos dealltwriaeth dda o`r Gymraeg gan ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau a chyfarwyddiadau oedolion.

Mae gan y plant fedrau gwrando arbennig o dda gan wrando`n astud ar ei gilydd am gyfnodau estynedig o amser, fel yn ystod amser cylch. Mae`r holl blant yn fodlon i ddilyn cyfarwyddiadau.

Mae pob un o`r plant yn mwynhau storïau er bod eu gallu i wrando am gyfnodau estynedig o amser yn amrywio. Mae rhai plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn arbrofi â chreu marciau.

Mae pob plentyn yn dechrau cyfrif ac mae llawer o blant yn adnabod rhifau sengl. Maen nhw`n dechrau adnabod patrymau a siapiau.

Mae`r holl blant yn gyfarwydd ag offer digidol, gan gynnwys er enghraifft, ffonau symudol. Mae archwiliad o`u gwaith yn dangos bod defnydd o gyfrifiaduron yn datblygu`n dda.

Mae gan y plant ddealltwriaeth sylfaenol o eiriau, ymadroddion a chyfarwyddiadau yn y Gymraeg sy`n cael eu defnyddio gan oedolion. Mae eu gallu yn yr iaith yn gwella`n gyflym. Mae`r holl blant yn ymateb yn briodol i ymadroddion sy`n cael eu hadrodd gan leisiau cyfarwydd ac yn dangos dealltwriaeth o fwy o eiriau nag y gallant siarad.

Mae`r plant yn mwynhau caneuon actol a rhigymau Cymreig ac yn ymuno`n frwdfrydig. Maen nhw`n arbrofi gyda chreu marciau yn eu llyfrau ac yn defnyddio sialc ar fyrddau sialc tu allan. Maen nhw`n deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu, fel gwneud rhestrau.

**Lles: Da**

Mae`r holl blant yn mwynhau mynychu`r lleoliad ac yn datblygu agwedd dda iawn tuag at eu dysgu. Mae bron pob un o`r plant yn dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn canolbwyntio ar dasgau am gyfnodau hir o amser.

Mae ymddygiad y plant yn arbennig o dda – maen nhw`n gwrando`n astud, yn dilyn cyfarwyddiadau ac yn uniaethu â`i gilydd ac oedolion yn dda. Nodwedd ymddygiad da a nodedig yn ystod yr arolygiad oedd ymddygiad ystyriol llawer o`r plant ifanc yma.

Mae`r holl blant yn datblygu ymwybyddiaeth o fyw`n iach yn unol â`u hoedran ac yn cydnabod pwysigrwydd golchi eu dwylo cyn bwyta. Mae ymddygiad ac agwedd y plant yn dangos yn dda iawn eu bod yn teimlo`n ddiogel ac yn rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o gam-drin corfforol a geiriol.

Mae`r plant yn cael cyfleoedd da i wneud penderfyniadau ac yn dangos gallu i gyd-weithio.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae`r amrywiaeth eang o weithgaredau sy`n cael eu cynllunio ar gyfer y plant yn llwyddiannus o ran ennyn a chynnal diddordeb pob plentyn. Mae`r cwrciwlwm yn annog y plant i wneud cynnydd tuag at ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen ac i gaffael medrau priodol.

Mae`r gweithgareddau dysgu`n annog y plant i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Maen nhw`n cael eu parchu fel unigolion ac mae hyn yn eu helpu i ffurfio perthynas, i dod yn hyderus i gael yr hyder i ddewis gwahanol weithgareddau ac i wybod pryd i ofyn am gymorth.

Mae`r cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn ysgogi`r plant, fodd bynnag, nid yw`r tasgau a`r profiadau bob amser yn cyfateb yn ddigonol â gallu a chyflawniad blaenorol y plant. Yn yr achosion hyn, nid yw`r gwaith wedi`i wahaniaethu`n ddigonol er mwyn diwallu anghenion addysgiadol y plant a`u herio.

Mae`r cwricwlwm yn helpu`r plant i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliannau eraill a dealltwriaeth o`r byd o`u cwmpas. Mae`r ymweliadau â`r ardal leol yn fantesiol o ran hyn.

Yn eu gwaith annibynnol, mae`r plant yn dangos eu bod yn caffael medrau meddwl priodol ac mae`r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth annog prosesau meddwl y plant.

Caiff y plant eu trochi yn yr iaith Gymraeg ac yn cael eu hannog i ddefnyddio`r iaith gymaint â phosib. Nodwedd gadarn o`r lleoliad yw`r pwyslais ar ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o draddodiadau a dathliadau diwylliant Cymru.

Mae`r plant yn dysgu am ail-gylchu a chynaladwyedd drwy dyfu a gofalu am hadau ac eginblanhigion.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o`r Cyfnod Sylfaen ac mae ganddynt wybodaeth drwy brofiad o ddatblygiad plant. Nodwedd dda o`r lleoliad yw disgwyliadau uchel y staff o`r plant ac mae hyn yn cael ei wireddu`n ymarferol. Fodd bynnag, nid oes digon o sylw yn cael eu rhoi i ddarparu gwaith sydd wedi`i wahaniaethu`n dda ar gyfer diwallu galluoedd gwahanol y plant ac i`w herio.

Mae`r staff yn cynllunio ar y cyd ac yn ymwybodol o`u rolau. Maen nhw`n gwybod pryd i ymyrryd yn y gweithgareddau chwarae a phryd i adael plant i weithio`n annibynnol. Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion tu fewn a thu allan. Mae`r plant yn ymddwyn yn dda ac yn rhyngweithio`n dda ag oedolion.

Mae`r staff yn fodelau iaith dda ac yn wyliadwrus wrth ddatblygu`r iaith Gymraeg.

Caiff y plant eu hasesu`n rheolaidd; mae gweithwyr allweddol yn defnyddio nodiadau byr i ddynodi gweithgareddau`r plant a chaiff yr rhain eu cynnwys yn ffeiliau cofnod y plant. Mae`r ffeiliau yma`n gofnod da o`r hyn mae`r plant wedi`i wneud a maen nhw ar gael i rieni wrth i`r plant adael y lleoliad. Mae hyn yn rhoi cofnod i rieni o waith eu plant. Er bod cofnodion fel hyn yn llawn gwybodaeth, nid ydynt yn canolbwyntio`n ddigonol ar gyflawniadau unigol y plant yn nhermau`r medrau maen nhw wedi eu caffael. Yn ogystal, nid ydynt yn caniatáu i`r camau nesaf yn y dysgu ar gyfer y plant gael eu nodi. Fel canlyniad, nid yw deilliannau`r asesu yn cael eu defnyddio`n ddigonol wrth gynllunio gweithgareddau i`r dyfodol fel eu bod yn diwallu anghenion y plant, ac nid yw rhieni yn ymwybodol o gynnydd eu plant o ran datblygiad eu medrau.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae`r ddarpariaeth ar gyfer datblygu iechyd a lles y plant gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda.

Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn meithrin gwerthoedd da fel gonestrwydd, tegwch a pharch at ei gilydd. Mae`r plant yn gwybod ac yn gwahaniaethu rhwng yr hyn sy`n gywir ac anghywir gan ymddwyn yn unol â hynny. Mae`r cwricwlwm, ac yn enwedig ymweliadau â`r ardal leol, yn galluogi`r plant i ddysgu am a deall pobl sy`n byw yn eu cymuned a`r rolau sydd ganddynt. Mae ymweliadau â`r parc lleol yn ysgogi eu chwilfrydedd a`r synnwyr o ryfeddod am y byd o`u cwmpas.

Caiff y plant eu hannog i gymryd cyfrifoldeb a dangos blaengaredd ac i chwarae rhan lawn ym mywyd y lleoliad.

Caiff gwasanaethau arbenigol eu defnyddio`n dda yn ôl yr angen ac mae cysylltiadau da â gwasanaethau fel hyn ar waith. Yn yr achosion hyn, caiff rhieni eu cynnwys yn llawn ac mae arweinydd y lleoliad wedi darparu cefnogaeth tymor hir mewn un achos.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith o ran diogelu plant. Yr arweinydd yw`r aelod o staff enwebedig ar gyfer delio â materion amddiffyn a diogelu plant. Mae hi a`i chydweithwyr wedi mynychu cyrsiau diweddar a phriodol ac yn gyfarwydd â`r gweithdrefnau i`w dilyn.

Mae trefniadau`r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yn y gorffennol, mae`r plant ag anghenion dysgu ychwanegol wedi cael mynediad llawn i bob maes dysgu. Mae`r plant yma wedi`u cefnogi yn ôl yr angen. Mae`r rhieni wedi`u cynnwys yn llawn.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad ethos dda sy`n hollol gynhwysol ac yn cynnig hawl gyfartal i`r cwricwlwm. Mae`r gweithgareddau dyddiol yn sicrhau goddefgarwch a chymuned sy`n rhydd oddi wrth unrhyw ffurf o aflonyddwch neu unrhyw ffurf o ymddygiad gormesol. Caiff y plant eu parchu fel unigolion gan adnabod eu anghenion penodol. Nid fu unrhyw achosion o gwyno.

Mae gan ymarferwyr gymwysterau perthnasol a phriodol a phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae gan y lleoliad ddigon o adnoddau i fodloni gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i fodloni anghenion y plant. Mae`r lleoliad wedi llwyddo i greu ardal allanol sy`n cyfoethogi profiadau`r plant. Dyma amgylchedd dysgu deniadol sydd wedi ei greu o leoliad annhebygol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r staff yn deall eu rolau penodol ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn llawn. Maen nhw`n gweithio`n dda fel tim, yn rhannu gwerthoedd ac amcanion ac yn canolbwyntio`n dda ar roi`r profiadau gorau i`r plant. Mae`r holl staff yn cyfrannu at y cynllunio strategol ac mae`r arweinydd yn cydlynu awgrymiadau i mewn i gynllun gwaith. Mae`n rhoi cyfarwyddiadau clir i`r staff am eu cyfrifoldebau penodol fel gweithwyr allweddol. Drwyddi draw, mae`r gwaith tim sy`n amlwg yn y lleoliad yn creu ethos gadarnhaol gyda disgwyliadau uchel o`r plant, yn enwedig yn nhermau datblygu eu hiaith a`u medrau cymdeithasol a phersonol.

Mae`r staff wedi mynchu amrywiaeth dda o gyrsiau datblygiad proffesiynol. Caiff hyfforddiant o`r fath ei werthuso ac wedi cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Agwedd o`r arweinyddiaeth sy`n gryf yw`r cysylltiadau effeithiol sydd wedi`u datblygu gyda`r rhieni sydd â meddwl uchel o`r arweinydd a`r staff.

Mae`r pwyllgor rheoli yn gefnogol iawn o`r lleoliad ac yn gwerthfawrogi gwaith y staff. Dim ond yn ddiweddar iawn mae`r pwyllgor rheoli presennol wedi`i ffurfio ond wrth drafod, dangoswyd eu hymrwymiad i`r lleoliad ac i wella`r ddarpariaeth lle`n bosib.

Maen nhw`n deall eu rolau ac yn cael gwybodaeth dda am y lleoliad. Maen nhw`n cyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol.

Mae`r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol fel gweithredu`r Cyfnod Sylfaen a chymryd ystyriaeth o fentrau Bwyta`n Iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae`r ddogfen hunanarfarnu gyfredol yn fanwl ac yn nodi`r cryfderau a`r meysydd i`w datblgyu`n glir. Mae datblygiadau diweddar, fel datblygu`r ardal allanol, wedi golygu enillion cadarnhaol ar gyfer y plant.

Mae`r holl staff wedi bod yn rhan o`r broses hunanarfarnu ond nid yw meysydd i`w gwella`n cael eu blaenoriaethu bob tro.

Mae pob ymarferydd yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol ac mae effaith yr hyfforddiant wedi golygu gwelliant yn y ddarpariaeth a lles y plant. Mae hyn wedi cynnwys hyfforddiant yr holl staff er enghraifft mewn cyrsiau Cymorth Cyntaf, Diogelu Plant a Hylendid Bwyd. Er bod yr awdurdod lleol yn darparu cyrsiau hyfforddi perthnasol, mae cyrsiau Mudiad Ysgolion Meithrin drwy gyfrwng y Gymraeg yn berthnasol iawn. Mae`r pwyllgor rheoli yn annog staff i fynychu cyrsiau hyfforddi proffesiynol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r lleoliad yn gweithio`n dda gyda rhieni. Mae`r polisi drws agored yn galluogi rhieni a gofalwyr i ymgartrefu`u plant yn y lleoliad ac i drafod unrhyw faterion o bryder gyda`r staff. Mewn gwirionedd, mae`r plant yn hapus i fynychu`r Cylch ac mae bron pob un yn cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd wedi eu darparu ar eu cyfer. Yn ôl yr angen, mae`r ymarferwyr yn ymgysylltu â`r plant wrth iddynt gyrraedd ac yn eu cysuro os maen nhw`n ymdangos yn anniddig neu`n amharod i gymryd rhan yn y gweithgareddau. Mae cysylltiadau da yn bodoli gyda`r ysgolion trosglwyddo.

Mae`r staff yn elwa o gyngor a chefnogaeth gan athro ymgynghorol yr Awdurdod Lleol a thrwy eu partneriaeth â Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM). Yn ystod yr arolygiad roedd aelod o MYM wedi dod yn lle un o staff y lleoliad a oedd yn anffodus yn absennol oherwydd salwch.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r ymarferwyr yn cael eu defnyddio`n dda ac mae`r adnoddau`n cael eu defnyddio`n briodol i gymell a diddori`r plant yn eu dysgu. Mae`r adnoddau yn cael eu defnyddio`n dda yn yr addysgu. Mae`r lleoliad yn elwa o gyfleusterau allanol, sy`n galluogi`r plant i gymryd rhan mewn chwarae gyda dŵr, dringo a thyfu hadau. Mae`r lleoliad hefyd yn gwneud defnydd da o`r gymuned leol a`r parc. Drwyddi draw, mae`r lleoliad yn defnyddio`i gyllid yn dda er lles y plant.

Drwyddi draw, mae`r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Cafwyd 10 ymateb i`r holiaduron. Mae`r holiadur yn cynnwys 16 o ddatganiadau a gofynnwyd i`r ymatebwyr raddio eu hymateb fel “cytuno`n gryf”, “cytuno”, “anghytuno”, “anghytuno`n gryf” neu “ddim yn gwybod”.

Dyma`r canlyniadau:

Roedd pob un o`r ymatebion (100%) yn “cytuno`n gryf” â`r datganiadau canlynol:

*Rwy`n fodlon â`r lleoliad at ei gilydd.*
*Mae fy mhlentyn yn hoffi`r lleoliad hwn.*
*Cafodd fy mhlentyn help i ymgartrefu`n dda pan oedd yn dechrau yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad.*
*Mae`r plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad.*
*Mae`r ymarferwyr yn trin pob plentyn yn deg ac yn dangos parch tuag atynt.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei (h)annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.*
*Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad.*
*Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.*
*Rwy`n teimlo`n gyfforddus ynglŷn â mynd at y lleoliad gyda chwestiynau, awgrymiadau neu broblem.*
*Rwy`n deall gweithdrefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion.*
*Mae`r lleoliad yn cael ei redeg yn dda.*

Roedd mwy na thri-chwarter (75%) yn “cytuno`n gryf” a`r gweddill yn “cytuno” gyda`r datganiadau canlynol:

*Mae`r addysgu yn dda.*
*Rwy`n cael gwybodaeth dda am gynnydd fy mhlentyn.*
*Mae fy mhlentyn yn cael ei baratoi/ei pharatoi`n dda ar gyfer symud ymlaen i`r ysgol.*
*Mae ystod dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.*

Nid oedd unrhyw ymatebion oedd yn “anghytuno” neu`n “anghytuno`n gryf” ag unrhyw un o`r datganiadau. Roedd y sylwadau yn cynnwys:-

*Y mae fy mhlentyn bob amser yn hapus i fynd i`r Cylch.*

*Yn wir, mae fy mhlentyn wrth ei fodd yn dod i`r Cylch. Mae e`n hoff iawn o`r holl staff ac mae fy mhartner a finne`n hapus iawn a`i gynnydd.*

*Mae fy merch yn addoli`r staff a`i chyfoedion ac yn hapus iawn i ddod i`r feithrinfa bob dydd.*

*Rydw i wrth fy modd â Chylch Meithrin y Parc!  Mae`r staff yn frwdfrydig bob amser ac yn gweithio`n galed!*

*Mae fy mhlant wedi cael amseroedd hapus yn y lleoliad hwn ac rwy`n argymell y lle i rieni eraill.*

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae`r plant yn frwdfrydig ac yn hapus i fynychu.  Mewn trafodaeth, dywedodd y plant eu bod yn mwynhau`r gweithgareddau a chwrdd.

## Atodiad 2

### Y arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |